

**Cyngor Cymuned Pentir**  
**Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 4ydd o Hydref 2018**  
**yn Y Swyddfa, Parc Menai am 7pm.**

**Agenda**

Gweddi

Presennol / Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion 13eg o Fedi 2018

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 26ain o Fedi

- Adroddiad ariannol
- TAW
- Ceisiadau Ad 137
  - Llais Ogwan
  - Seintiau Bangor
- Archwilwyr Allannol
- **Prydles y Swyddfa a'i argymhellion**

Adroddiad Is Bwyllgor Asedau 20-09-18

Ceisiadau Cynllunio diweddard ardal Pentir

Materion y Clerc

- **Prydles y Swyddfa**
- Gohebiaethau
  - Binau Halen
  - Prydles Canolfan Penrhos
  - Datblygiad Ysgol y Faenol
  - Gamlins

Materion y Cyngorwyr

# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 13<sup>eg</sup> o Fedi 2018 yn Parc Menai am 7pm**

## **Presennol:**

Y Cyng. - D. W. Jones. - R. Jones. - J. Griffiths, - L. James - J Pierce, - D Jones-Morris. - B Jones, - T Anwyl-Williams a M. Baines

Modlen Lynch

E Jones (Clerc )

## **Ymddiheuriadau:**

Y Cyng, C. E. Hughes, a H Griffiths

Cadeiriodd yr Is-gadeirydd Cyng R T Jones ag offrymwyd gweddi gan y Cyng D W Jones

Cod Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen  
Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd eto ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn drysorydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan

Cyfethol i ward Glasinfryn /Pentir

Esboniodd y Clerc fod y Cyngor wedi dilyn arweiniad Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd parthed cyfethol i'r sedd wag. Ni fu cais am etholiad ag yn dilyn arddangos rhybudd o gyfethol dros yr haf nid oedd enw wedi ei gynnig tan heno

Cynnigiodd Cyng J Griffiths enw Modlen Lynch ag eilwyd y cynnig gan y Cyng L James. Cafodd y cynnig ei dderbyn yn unfrydol. Derbyniodd Modlen Lynch y swydd ac arwyddodd y ffurflen dderbyn

Cofnodion 12fed o Orffennaf 2018

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng M Baines a eilwyd gan Cyng L James

Materion yn codi o'r cofnodion

Holwyd os oedd y Clerc yn gallu cadw at ei 10 awr yntau os oedd gor-amser yn an-orfod  
Anodd oedd asesu gan fod Awst yn gyfnod tawel – ychwanegodd fod Awst yn gyfnod pan oedd yn anodd cael ateb i unrhyw ymholiad **Cytunwyd iddo fonitro a cofnodi oriau tan diwedd y flwyddyn Cais Cynllunio Maes Mawr** Y cais adeiladu wedi ei ganiatau ar y drydedd ymgais a chais i symud yn nes at yr adeliad gwreiddiol oedd hwn Gwrthwynebwyd y cais gan fod trigolion cyfagos wedi datgan pryder ond nid oedd gwybodaeth pellach i adrodd

Llwybr yr Arfordir - dim ymateb wedi cyrraedd

Cae Chwarae Caerhun - trafodwyd mae risg isel nodwyd parthed y gap oedd rhwng y teils diogelwch ond **angen ei fonitro**

Ty'n Ffridd – Clerc wedi tarfod y lleoliad gydag un Swyddog Gorfodaeth ond ddim y swyddog hwnnw oedd yn gyfrifol am ardal y lleoliad. Os oedd offer gwyliau yn symudol nid oedd o reidrydd angen cais cynllunio. **Byddai'n pasio'r wybodaeth ymlaen i'w gyd-weithiwr**

**Cytunwyd cynnwys y mater ar Agenda cyngor nesaf a gwahodd rhywun o'r Adran Gynllunio i'n cyfarfod**

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 29ain o Awst

- Adroddiad ariannol - 'roedd mantolen ariannol wedi ei atodi i'r Cyngor Llawn
- Ceisiadau Ad 137
  - Marie Currie Argymhelliad i gyfrannu £300 gan fod trigolion lleol yn elwa
  - Llais Ogwan Argymell cyfrannu £300 eto eleni ond disgwyl hyd nes bydd mantolen ariannol 2017-18 wedi ei dderbyn

- Archwilwyr Allannol - Y Clerc wedi derbyn e-bost yn amlinnellu 4 pwynt oedd angen sylw gan y BDO. 'Roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi ymateb i'r pedwar pwynt a'i dychwelyd i'r Cwmni

#### Adroddiad Is Bwyllgor Asedau 19-07-18

Dosbarthwyd cofnodion (heb eu cadarnhau) o'r Is-bwyllgor hwnnw oedd yn cynnwys argymhellion i edrych ar delerau y Fynwent o'i cymharu a Cynghorau cyfagos a Cyngor Gwynedd Rheolau i'r Hysbysfyrddau a dyddiadau y cyfarfodydd am y flwyddyn

#### Ceisiadau Cynllunio diweddar ardal Pentir

- C18/0705/25/LL Dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad un llawr Tanwylfa Penrhosgarnedd (Cynlluniau bwriedig diwygiedig) (**dim gwrthwynebiad**)
- C18/0767/25/LL Lleoli 40 Uned Llety Gwyliau Coede Y Wern Ty Gwyn Glasinfryn Bangor LL57 4UR

'Roedd Cyng M Baines wedi cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Glasinfryn heno cyn y Cyngor Adroddodd tra fod rhai yn gwrthwynebu yn eitha chwyn mi oedd rhywfaint o gefnogaeth yn rhyfedd iawn o Stád Bro Infryn.

Ar ol trafodaeth yn gyffredinol y farn oedd i **anfon sylw** i ddatgan pryder fod y datblygiad rhy fawr ag yn mynd i gael effaith ar breifatrwydd trigolion Bro Infryn a hefyd y byddai trafndiaeth yn mynd i gael effaith ar y pentref er gwaetha'r ffaith fod dim troi i'r dde o'r datblygiad i fod.

**Atgoffwyd pawb fod gan pawb yr hawl i leisio eu barn yn unigol boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynllun**

#### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Biniâu Halen Clerc wedi derbyn costau llenwi £40 ag ail lenwi yn ystod y gaeaf o £60 Derbynwyd ein bod am ymgymeryd a'r bartneriaeth ond i'r Is-bwyllgorau drafod ymhellach ac argymhell ble fyddai angen ystyried rhai ychwanegol
  - Ymgynghoriad Adran Cynllunio – Derbynwyd rhestr faith o sylwadau / argymhellion sut y byddai posib gwella'r gwasanaeth gan yr adran gynllunio. **Clerc i'w anfon i'r adran**
  - Prydles Canolfan Penrhos Y Clerc wedi derbyn llythyr gan Dafydd Gibbard o Cyngor Gwynedd yn cyfeirio at y brydles bresennol ble byddai angen addasu ei chynnwys i roi yr hawl i'r ddwy ochr allu rhoi rhybudd o 3 mis i ddod a'r brydles i ben yn hytrach na dim ond yr hawl i ni fel deiliaid y brydles. Byddai hefyd ddrafft o brydles ar gyfer yr adeilad newydd. **Cytunwyd trafod y llythyr gyda Cwmni Gamlins i gael eu barn gyfreithiol nhw ar y mater**
  - Datblygiad Ysgol y Faenol - Ychydig iawn o ddatblygiad uniongyrchol ar y panc yma oherwydd y gwyliau ond bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cychwyn ar y 18fed o Fedi a byddai dwy noson agored ymlaen ar y 9fed a'r 10fed o Hydref yn Adran Busnes y Brifysgol. Byddai cornel wedi ei neilltuo ar gyfer yr ochr Gymunedol o'r prosiect
  - Arian Redrow
    - Ffordd Penrhos Clerc wedi derbyn a dosbarthu datbygiadau fyddai yn mynd allan i dendr yr wythnos ganlynnol am 3 darn o waith yng nghyffiniau Ffordd Penrhos
      - Tynnu Ynys (ble byddai Ciosg) o flaen ysgol Y Faenol fydd yn ychwanegu ychydig o le parcio
      - Croesfan bwrpasol ar Ffordd Penrhos
      - Twll yn y Wal – gwaith ofynwyd amdano gennym ni fel cyngor fydd bellach yn cael ei wneud gan Cyngor Gwynedd

- Oes arian ychwanegol - Y Clerc a'r Cyng Sir M Baines i holi os oes arian ychwanegol heb ei ddyrannu
- Cae chwarae Ffordd Cynan - Mae offer wedi ei brynu a'i osod yn y cae chwarae yma ond DIM i'w wneud a Cyngor Pentir fel oedd un o drigolion lleol yn honni Yn yr un modd nid oedd y cyfraniad o £15k i prosiect gwelliannau cae peldroed clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd ddim i'w wneud a Cyngor Pentir chwaith

#### Materion y Cynghorwyr

Cyng Menna Baines Parcio Bro Ogwen Er i'r Clerc gysylltu a CCG nid oedd wedi derbyn ymateb. Mi oedd Cyng M Baines wedi cael ymateb yn amlinnellu mae ffordd gyhoeddus oedd y maes parcio ag na ellir neilltuo safleoedd ar gyfer y trigolion.

Mae lle i gredu mae tir CCG ydi'r maes parcio a felly fod posib neilltuo safleoedd yno

Cyng H Griffiths Gwreiddia coed ar lon y Wern Adroddwyd fod y gwreiddia yn agos i wyneb y ffordd a fod trelar amaethyddol ei dad-fachu wrth ddod trosto **Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00